## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Rhuthun ar ddydd Mercher 30ain Medi 2009 am 09.30am.

### YN BRESENNOL

Cynghorwyr I W Armstrong, J R Bartley, J B Bellis, B Blakeley, J Chamberlain-Jones, W L Cowie, P A Dobb, M J Eckersley, G C Evans, D Hannam, C Hughes, T R Hughes, E R Jones, H Ll Jones, G M Kensler, L M Morris, P W Owen, D Owens, A G Pennington, B A Smith, D I Smith, D A J Thomas, S Thomas, C H Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Clerc y Sir, Rheolwr Rheoli Datblygu, Arweinydd Tîm (Cefnogaeth) (G Butler) Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid (Judith Williams) Medwyn Williams (Swyddog Priffyrdd) a Catrin Gilkes (Cyfieithydd).

### DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Cynghorwyr J Thompson-Hill, J A Davies, J M Davies, P C Duffy, I A Gunning ac N J Hughes.

**344 MATERION BRYS**

Dim

**345 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd ag angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad a gyflwynir yn awr, a rhoi caniatâd cynllunio neu'i wrthod yn ôl fel y digwydd, fel y bo'n briodol o dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)1990 i'r datblygiad a arfaethir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a restrir yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

**(i) Caniatâd**

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Safle |
|---|---|
| 45/2009/0750/PF | Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Chris Ruane, AS a gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â thai fforddiadwy<br>Amnewid mathau o dai ar Leiniau 1-8, 12-40, 57-61, 103-111 & 114 (Newidiadau i gynllun a gymeradwywyd yn flaenorol ar gyfer Rhan 1 cyf 45/2007/1233/PR)<br>**Tir yn Y Rhyl de-ddwyrain Stad Parc Aberkinsey- Rhan 1, Ffordd Diserth, Y Rhyl**<br>**CANIATÁU** |
| 46/2009/0022/PF | Ar ôl ystyried cynllun ychwanegol a gylchredwyd ac un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Swyddog Cadwraeth Cyngor Sir Ddinbych<br>Codi annedd newydd (ailgyflwyno) |

**Tir rhwng Hulmehurst a Pant yr Afon Stryd Isaf, Llanelwy**
**CANIATÁU**

47/2009/0872/PF **SIARADWR O BLAID DERRICK JONES**
Ar ôl ystyried gwybodaeth ychwanegol ynglŷn ag SPG1
Codi estyniadau to serth deulawr ac unllawr i'r annedd bresennol
**Pen y Waen, Waen, Llanelwy**
**CANIATÁU**

15/2009/0147/PF **SIARADWR O BLAID JOHN KEENAN**
Ar ôl ystyried 6 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth:- Y Cynghorydd C Evans; Ymgynghorydd Coed FWAG; Glenys Roberts, Tyn Llidiart, Llanarmon-yn-Iâl; M Cadwaladr, Cam Uchaf, Llanarmon-yn-Iâl; Jill a Meurig Lloyd, Pant y Ffordd Isa, Ffordd Llandegla, Llanarmon-yn-Iâl; Mr a Mrs Challoner, Vine Cottage Llanarmon-yn-Iâl.
Adeiladu mynedfa newydd i gerbydau
**Cam yr Alyn, Ffordd Llandegla, Llanarmon-yn-Iâl, Yr Wyddgrug**
**CANIATÁU**
**<u>Amod Diwygiedig Rhif 3</u>**
3. Mae'r darn o wrych sydd i'w ailblannu i fod o rywogaeth frodorol a gedwir i uchafswm uchder o 1.05m, wedi'i blannu yn y tymor plannu cyntaf ar ôl cwblhau'r fynedfa. Mae unrhyw wrych a dynnir ymaith heb ganiatâd neu sy'n marw neu'n cael ei ddifrodi'n arw neu'n cael ei heintio'n ddifrifol o fewn pum mlynedd i gwblhau'r datblygiad i'w gyfnewid am wrych o'r un maint a math brodorol tebyg
Rheswm: Er lles amwynder gweledol

**CANIATÂD YN ERBYN ARGYMHELLIAD**
18/2009/0565/PF **SIARADWR O BLAID PETER MATISHOK**
Ar ôl ystyried ymweliad safle
Newidiadau a chodi estyniadau ar y tu blaen a'r ochr yn cynnwys codi uchder y to, gosod ffenestri dormer, ffenestri to a chodi balconi
**The Rofft, Llandyrnog, Dinbych**
**CANIATÁU**
Yr amodau yw:
1. Mae'r datblygiad a ganiateir trwy hyn i'w ddechrau cyn pen pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.
2. Mae defnyddiau a gorffeniadau arwynebau allanol waliau a thoeau'r adeilad a ganiateir trwy hyn i fod o'r un gweadedd, math a lliw â'r rheini ar waliau allanol a tho'r adeilad presennol.
3. Mae'r gwrych aeddfed ar ran flaen (gogleddol) y terfyn i'w gadw ar uchder o ddim llai na 2.5m. Petai unrhyw ran o'r gwrych hwn yn cael ei dynnu ymaith heb ganiatâd, yn marw, yn cael ei ddifrodi neu'i heintio'n ddifrifol, mae i'w gyfnewid am sbesimenau o'r un maint a rhywogaeth mewn cytundeb â'r Awdurdod Cynllunio Lleol.
Y rhesymau dros yr amodau yw:
1. Cydymffurfio â darpariaethau Adran 91 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
2. Er lles amwynder gweledol.
3. Er lles amwynder gweledol.
Gwnaed y penderfyniad, a oedd yn **GROES** i Argymhelliad y Swyddogion, am y rheswm canlynol:
Roedd y pwyllgor o'r farn fod yr estyniadau arfaethedig yn eilradd i'r annedd wreiddiol.

**CAIS WEDI'I OHIRIO**

44/2008/0566/PF

(Gadawodd y Cynghorydd S Thomas y Gadair a llywyddodd yr Is-Gadeirydd y cyfarfod yn ystod trafodaethau ar y cais canlynol.)
Un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth S Rafferty 15 Clwyd Avenue, Rhuddlan.
Codi 10 o anheddau ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau/ gerddwyr.
**Tir y ceir ato oddi ar Ffordd Y Rhyl, yn gyfagos i Fynwent Rhuddlan, Ffordd Newydd, Rhuddlan, Y Rhyl**
**GOHIRIO**
Cytunwyd i ohirio'r penderfyniad hwn i ganiatáu i'r cais hwn gael ei glywed gan y pwyllgor yn yr un cyfarfod â chais am ddatblygiad preswyl ar safle cyfagos

**CAIS WEDI'I DYNNU'N ÔL**

03/2009/0416/PC

Newid defnydd uned llety gwyliau yn annedd breswyl (cais ôl-weithredol)
**Ysgubor Pen y Bryn, Ffordd Caergybi, Llangollen**
**(TYNNWYD YN ÔL gan yr ymgeisydd)**

**ADRODDIAD GORFODI**

ENF/2009/35

Ysgubor Pen y Bryn, Ffordd Caergybi, Llangollen
Defnydd Preswyl Diawdurdod Uned a Osodir ar gyfer Gwyliau.

***PENDERFYNWYD** bod awdurdodiad i'w roi i gyflwyno Hysbysiad Gorfodi gyda chyfnod cydymffurfio o 12 mis yn gorchymyn rhoi terfyn ar ddefnydd yr ysgubor fel tŷ annedd a'i ddychwelyd i'r defnydd gosod ar gyfer gwyliau a ganiateir.*

*Cychwyn achos erlyn ble mae unrhyw un y cyflwynwyd Hysbysiad iddo yn methu neu'n gwrthod cydymffurfio â darpariaethau'r hysbysiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11am

********